



Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru

Adroddiad Cynnydd

Ionawr 2017

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru

Adroddiad Cynnydd

Ionawr 2017

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 3(2C)
Deddf Etholaethau Seneddol 1986, fel y'i diwygiwyd gan
Ddeddf System Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011

© Hawlfraint y Goron 2017

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3> neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.comffin-cymru.gov.uk

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn:

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Llawr Gwaelod

Tŷ Hastings

Fitzalan Place

Caerdydd

CF24 0BL.

E-bost: comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk

AROLWG 2018 O ETHOLAETHAU SENEDDOL

Adroddiad Cynnydd Ionawr 2017

Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn, fel y mynnir gan Ddeddf System Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011, yn amlinellu'r cynnydd y mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ("y Comisiwn") wedi'i wneud o ran paratoi'r arolwg o ffiniau sydd i'w gyflwyno erbyn 30 Medi 2018. Fel y gwyddoch, mae'n ofynnol i chi yn ôl adran 3(2C) i gyflwyno ein hadroddiad gerbon y Senedd.

Cynnydd hyd yma

2. Ar 23 Mawrth 2016 cyhoeddodd y Comisiwn ddechrau Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru. Cyhoeddwyd cynigion cychwynnol y Comisiwn o dan y rheolau a bennwyd yn y Ddeddf System Pleidleisio ac Etholaethau Seneddol (h.y. gostwng etholaethau o 40 i 29 a phob etholaeth i fod o fewn 5% i gwota'r DU) yn Gymraeg a Saesneg ar 13 Medi 2016.
3. Yn arwain at gyhoeddi'r cynigion cychwynnol, ar y cyd â Chomisiwn Ffiniau Lloegr a Chomisiwn Ffiniau'r Alban, fe wnaeth y Comisiwn ddatblygu porth ymgynghori ar-lein. Aeth y porth hwn yn fyw yng Nghymru a Lloegr ar yr un diwrnod ag y cyhoeddwyd y cynigion cychwynnol, ac mae wedi bod yn llwyddiant mawr ers hynny.
4. Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori o 12 wythnos o 13 Medi hyd at 5 Rhagfyr 2016. Yn ystod y cyfnod hwn, derbyniodd y Comisiwn dros 500 o gynrychiolaethau ysgrifenedig. Gan ystyried y deisebau a dderbyniwyd, roedd hyn yn cynrychioli barnau tua 1,260 o unigolion. Hefyd, cynhaliodd y Comisiwn bum gwrandawriad cyhoeddus yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, yng Nghaerfyrddin, Bangor, Caerdydd, Llandrindod a Wrecsam. Siaradodd gyfanswm o 74 o unigolion yn y gwrandawriadau cyhoeddus hyn.

Y Camau Nesaf

5. Mae cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, yn ysgrifenedig ac yn y gwrandawriadau cyhoeddus, yn cael eu prosesu ar hyn o bryd cyn eu cyhoeddi, ac wedyn bydd cyfnod ymgynghori pellach o bedair wythnos pan wahoddir pobl i gynnig sylwadau ar yr ymatebion a wnaed gan eraill.
6. Bydd y cynrychiolaethau a dderbynnir gan y Comisiwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf a'r ail gyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried gan y tri Chomisiynydd Cynorthwyol a fydd wedyn yn gwneud argymhellion i'r Comisiwn ynglŷn â sut y gall ddiwygio'i gynigion.
7. Bydd y Comisiwn wedyn yn ystyried yr holl gynrychiolaethau a wnaed ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, ac yn ystyried newidiadau i'r cynigion cychwynnol. Os bydd yn briodol, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi cynigion diwygiedig wedyn, ac yn agor cyfnod o ymgynghori ar y cynigion hynny.
8. Bydd y Comisiwn yn ystyried yr holl gynrychiolaethau a wnaed mewn perthynas â'i gynigion diwygiedig, ac yn penderfynu p'un ai i wneud unrhyw newidiadau pellach. Mae'r Comisiwn yn

hyderus y bydd mewn sefyllfa i gyhoeddi argymhellion terfynol cyn y terfyn amser statudol, sef 30 Medi 2018.

Materion Eraill

9. Ym mis Gorffennaf 2016, penodwyd Meistr Ustus Lewis yn Ddirprwy Gadeirydd i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru, yn weithredol o 1 Awst 2016. Fe wnaeth Meistr Ustus Lewis olynu Meistr Ustus Wyn Williams a ddynododd ei fod am ymddeol fel barnwr yr Uchel Lys. Yn rhinwedd Deddf Etholaethau Seneddol 1986 rhaid i swydd Dirprwy Gadeirydd Comisiwn Ffiniau Seneddol gael ei dal gan farnwr yr Uchel Lys.

Yr Anrh. Meistr Ustus Lewis
Dirprwy Gadeirydd
Comisiwn Ffiniau i Gymru

Mr Steve Halsall
Ysgrifennydd
Comisiwn Ffiniau i Gymru